

Rebecca Thomas



Enw: Rebecca Thomas

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu? Caerdydd

Ble aethoch chi i'r ysgol? Ysgol y Wern; Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol? Hoffi: gwersi Hanes, Cymraeg, a Drama. Casáu: gwersi Ymarfer Corff, gorfod dal y bws.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny? Newyddiadurwr.

Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn? Dirgelwch yr Ogof.

Beth yw eich diddordebau? Dringo mynyddoedd; pobi cacennau; chwarae gemau bwrdd.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus? Gwrandeo ar gerddoriaeth; coffi da yn y bore; siarad gyda ffrindiau ar skype neu zoom.

Beth sy'n eich gwylltio chi? Newid enwau lleoedd Cymraeg yn enwau Saesneg.

Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu? Pan oeddwn i tua 11 mlwydd oed.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

Rwy'n gweithio fel hanesydd ac yn cael lot o syniadau o ddarllen am y gorffennol. Mae fy meddwl yn aml yn crwydro ac yn dod o hyd i syniadau pan dwi fod yn gweithio ar rywbeth arall!


Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?

Rwy'n hoffi ysgrifennu am yr Oesoedd Canol, a chreu cymeriadau benywaidd cryf ac amrywiol.

Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

Cael geiriau lawr ar bapur sy'n bwysig. Ti ddim yn gallu ail-ddrafftio tudalen wag!

Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur? Dianc i fyd arall wrth ysgrifennu! Ond rwy wastad yn nerfus iawn wrth ddangos fy ngwaith i bobl eraill.



Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod? Dirgelwch yr Ogof.

Hoff gymeriad o lyfr? Branwen (o Ail Gainc y Mabinogi)

Hoff le? Copa Cnicht

Hoff fwyd? Pitsa

Hoff ffilm/rhaglen deledu? Lord of the Rings

Hoff air? Crwydro

Superpower o ddewis? Gallu hedfan.

Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol? Instagram

Beth sy'n gwneud i chi wenu? Derbyn neges neis annisgwyl

Swydd tase chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol? Rhedeg siop lyfrau (ond does gen i ddim clem am redeg busnes, felly ddim yn syniad da siŵr o fod...)

Top tip i ddarpar awduron Dal ati!

